

Arweiniad ar e-Ddeisebau (i'w ddarllen ar y cyd â'r [cynllun deisebau](#))

Pwy all lofnodi e-Ddeiseb?

Gall person o unrhyw oedran sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn Abertawe lofnodi e-Ddeiseb. Nid oes rhaid i chi fod yn ddefnyddiwr cofrestredig i lofnodi e-Ddeiseb ond bydd angen i chi ddarparu ychydig o fanylion sylfaenol, gan gynnwys cyfeiriad e-bost dilys, at ddibenion dilysu.

Dim ond unwaith y gallwch lofnodi e-Ddeiseb. Bydd y rhestr o lofnodwyr yn cael ei gwirio gan Swyddogion a bydd unrhyw lofnodion dyblyg neu ymatebion amhriodol yn cael eu dileu.

Pwy all gyflwyno e-Ddeiseb?

Gall person o unrhyw oedran sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn Abertawe gyflwyno e-Ddeiseb. I gyflwyno e-Ddeiseb bydd angen i chi fod yn ddefnyddiwr cofrestredig. Mae cofrestru'n broses syml sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi roi eich enw, eich cyfeiriad, eich côd post a chyfeiriad e-bost dilys i ni rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi am yr e-Ddeiseb.

O bryd i'w gilydd, gall y cyngor hefyd gyflwyno e-Ddeiseb ei hun i gael amcan o deimlad y cyhoedd ar fater enodol.

Sut mae dechrau e-Ddeiseb?

Ar hafan yr e-Ddeisebau, dewiswch yr opsiwn 'Cyflwyno e-Ddeiseb newydd'. Gofynnir i chi nodi teitl y bydd y system yn ei wirio'n awtomatig yn erbyn e-Ddeisebau presennol i'ch galluogi i weld a ystyriwyd un tebyg yn ddiweddar.

Yna bydd angen i chi lenwi'r ffurflen ar-lein. Cyflwynir hon i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd a fydd efallai'n cysylltu â chi i drafod eich e-Ddeiseb cyn iddo fynd yn fyw. Gall gymryd hyd at 10 niwrnod i'ch e-Ddeiseb gael ei chyhoeddi ar-lein.

Pa faterion y gall fy e-Ddeiseb ymwneud â hwy?

Dylai eich e-Ddeiseb fod yn berthnasol i ryw fater y mae gan y cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu y mae ganddo gyfrifoldebau cyflawni ar y cyd amdano. Dylid ei gyflwyno'n ddidwyll hefyd a bod yn onest ac yn barchus.

Gellir gwrthod eich e-Ddeiseb am y rhesymau a nodir yn 8.2 [Cynllun Deisebau'r Cynghorau](#).

Yn ystod cyfnodau gwleidyddol sensitif, megis cyn etholiad, efallai y bydd angen cyfyngu ar ddeunydd sy'n wleidyddol ddadleuol.

Nid yw'r cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am y deisebau ar y gwedudalennau hyn. Nid yw'r farn a fynegir yn y deisebau o anghenraid yn adlewyrchu barn y cyngor.

Os yw'ch e-Ddeiseb yn ymwneud â rhywbeth nad oes gan y cyngor reolaeth uniongyrchol drosto (er enghraifft y rheilffordd neu'r ysbyty lleol) byddwn yn ystyried cyflwyno sylwadau i'r corff perthnasol ar ran y gymuned.

Os ystyrir na ellir cyhoeddi'ch e-Ddeiseb am unrhyw reswm, bydd y cyngor yn cysylltu â chi o fewn yr amser hwn i esbonio. Byddwch yn gallu newid ac ailgyflwyno'ch deiseb os dymunwch. Os na fyddwch yn gwneud hyn o fewn 5 niwrnod gwaith, bydd crynodeb o'r e-Ddeiseb a'r rheswm pam nad yw wedi'i derbyn yn cael ei gyhoeddi o dan adran 'Deisebau a Wrthodwyd' y wefan.

Pa wybodaeth y dylai fy e-Ddeiseb ei chynnwys?

Bydd angen i'ch e-Ddeiseb gynnwys:

- Teitl.
- Datganiad clir a chryno o'r pryder a'r hyn yr hoffai'r Deisebwyr i'r cyngor ei wneud mewn ymateb iddi. Rhaid i ddeisebau ymwneud â rhywbeth y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano neu y mae gan y cyngor rywfaint o ddylanwad uniongyrchol drosto.
- Unrhyw wybodaeth sydd yn eich tyb chi'n berthnasol i'r e-Ddeiseb a rhesymau.
- Dyddiad ar gyfer pryd y bydd eich e-Ddeiseb yn mynd yn fyw ar y wefan. Gall gymryd hyd at 5 niwrnod gwaith i'r Gwasanaethau Democrataidd wirio'ch cais e-Ddeiseb a thrafod unrhyw faterion gyda chi felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r cais mewn da bryd i ganiatáu i'r e-Ddeiseb fynd yn fyw ar y dyddiad sy'n ofynnol gennych.
- Dyddiad ar gyfer pryd y bydd eich e-Ddeiseb yn rhoi'r gorau i gasglu llofnodion. Ni chaniateir i unrhyw Ddeiseb fod ar agor am 6 mis neu fwy.

Fel prif ddeisebydd, bydd eich enw'n cael ei arddangos gyda'ch e-Ddeiseb ar y wefan.

Os ydych yn cael trafferth cyflwyno e-Ddeiseb neu os hoffech gael rhagor o gyngor a gwybodaeth, cysylltwch â'r tîm Gwasanaethau Democrataidd (manylion isod) a byddwn yn hapus i'ch cynorthwyo.

Hyrwyddo'ch e-Ddeiseb

Er y bydd y cyngor yn cynnal e-Ddeisebau ar ei wefan, mater i'r prif ddeisebydd yw lledaenu'r gair am ei e-Ddeisebau.

Beth sy'n digwydd pan fydd yr e-Ddeiseb wedi'i chwblhau?

Pan fydd yr e-Ddeiseb yn cyrraedd ei dyddiad cau, ni fyddwch yn gallu'i llofnodi ar-lein mwyach. Caiff y rhestr o lofnodwyr ei choladu gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Beth fydd yn digwydd i'r e-Ddeiseb ar ôl ei chyflwyno?

Bydd ein hymateb i ddeiseb yn dibynnu ar yr hyn y mae deiseb yn gofyn amdano a faint o bobl sydd wedi'i llofnodi, ond gall gynnwys un neu fwy o'r canlynol.

- Codi cyhoeddusrwydd ar gyfer mater, ac ymwybyddiaeth ohono.
- Cyflwyno Deiseb i gyfarfod o'r Cabinet gan roi sylw i swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol.
- Cymryd y camau y gofynnir amdanynt yn y Ddeiseb (naill ai o dan bwerau dirprwyedig y Swyddog neu fel arall fel y bo'n briodol yn yr holl amgylchiadau).
- Mynd â'r mater i'r Cyngor llawn fel y gellir ystyried y Ddeiseb.
- Comisiynu ymchwil.
- Ysgrifennu at y Prif Ddeisebwr yn nodi barn y cyngor ar y cais yn y Ddeiseb.
- Cyfeirio'r Ddeiseb at Bwyllgor y Rhaglen Graffu.
- Cynnal cyfarfod gyda'r Prif Ddeisebydd.
- Anfon eich Deiseb ymlaen i gorff arall neu bwyso ar gorff arall os yw'n rhywbeth nad oes gan y cyngor unrhyw reolaeth uniongyrchol drosto.
- Mewn materion yr ymdrinnir â hwy gan awdurdod dirprwyedig, bydd y Swyddog cyfrifol yn ymateb i'r Ddeiseb.

Os yw deiseb yn cynnwys 500+ o lofnodion, caiff ei thrafod gan gyfarfod llawn o'r cyngor. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yng [Nghynllun Deisebau'r](#) cyngor.

Beth y gall e-Ddeisebau ei gyflawni?

Pan fyddwch yn cyflwyno e-Ddeiseb i'r cyngor gall gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid a llywio trafodaeth. Gall ddwyn mater i sylw'r cyngor a dangos cymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth gyhoeddus gref am rywbeth y mae'r cyngor yn ei wneud. O ganlyniad, gall y cyngor benderfynu, er enghraifft, newid neu adolygu polisi, cynnal cyfarfod cyhoeddus neu gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu rhagor o safbwyntiau ar y mater.

A allaf gyflwyno deiseb bapur o hyd?

Gallwch, gallwch gyflwyno deisebau papur o hyd. Gall deiseb hefyd gasglu enwau a chyfeiriadau ar y ddwy ffurf - gallwch gael fersiwn papur a fersiwn ar-lein, er y caiff enwau sy'n cael eu hailadrodd eu dileu. Dylai'r ddwy ffurf redeg am yr un cyfnod o amser a rhaid eu cyflwyno gyda'i gilydd. Wrth gyflwyno cais e-Ddeiseb, rhowch wybod i ni os ydych yn cynnal deiseb bapur hefyd a gellir tynnu sylw at hyn ar y wefan.

Polisi Preifatrwydd

Mae angen y manylion rydych yn eu rhoi i ni i ddilysu'ch cefnogaeth ond ni fyddant yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, ac eithrio'ch enw o dan y rhestr o lofnodwyr. Dyma'r un wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer deiseb bapur. Gall y cyngor gysylltu â chi mewn perthynas ag unrhyw

ddeisebau rydych wedi'u llofnodi, oni bai eich bod wedi gofyn iddo am beidio â chysylltu â chi wrth lofnodi'r e-Ddeiseb.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, neu i drafod e-Ddeiseb bosib, cysylltwch â'r:

Gwasanaethau Democrataidd: democratiaeth@abertawe.gov.uk/01792 636923